

Iechyd a lles anifeiliaid: prosiectau moch

Ar y rhwydwaith arddangos



FARMING
connect

cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Rhagair

Mae'r diwydiant moch yng Nghymru yn cynnwys unedau bach yn bennaf ac mae llawer o'r rhain yn arbenigo mewn bridiau prin a dulliau cynhyrchu heb fod yn ddwys, gan werthu cynnyrch premiwm drwy gadwyni cyflenwi byr yn aml. Ni waeth beth yw maint y genfaint, y ffordd fwyaf effeithiol o gynnal neu gynyddu cynhyrchiant systemau cynhyrchu moch yw drwy ganolbwyntio ar iechyd a lles yr anifeiliaid. Mae iechyd a lles gwael yn cael effaith uniongyrchol ar berfformiad moch drwy leihau'r porthiant a gaiff ei fwyta a'r cynnydd mewn pwysau byw dyddiol, ynghyd â lleihau effeithlonrwydd trosi porthiant.



Mae rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio wedi cynnal nifer o brosiectau ar wahanol safleoedd er mwyn ymchwilio i arferion da ym maes iechyd a lles moch, gyda'r nod o ddarparu cyngor ac arweiniad i ffermwyr ar draws Cymru a allai fod â diddordeb mewn rhoi cynnig arnynt ar eu ffermydd.

Mae'r prosiectau a gynhaliwyd yn dangos sut mae bioddiogelwch a dulliau rheoli iechyd da yn sail i fenter lwyddiannus a chynhyrchiol ac mae Cyswllt Ffermio wedi gweithio gyda phob math o gynhyrchwyr moch i roi hyn ar waith. Mae ffrwythlondeb, maeth a goroesiad y torllwyth hefyd yn faterion pwysig sydd wedi cael sylw mewn prosiectau a digwyddiadau er mwyn rhoi'r cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf i ffermwyr.

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio'n agos gyda Menter Moch Cymru, menter i gynyddu maint y genfaint foch yng Nghymru, a Hybu Cig Cymru. Mae gweithgareddau yn cynnwys prosiectau, digwyddiadau a gweithdai hyfforddiant i roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gynhyrchwyr moch er mwyn gwella arbedion effeithlonrwydd cynhyrchu a rhedeg busnesau cystadleuol. Mae rhagor o wybodaeth am brosiect Menter Moch Cymru ar gael yn <https://www.menterabusnes.co.uk/cy/mentermochcymru>

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a threialon ar yr holl safleoedd ar rwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Mae'r prosiectau hefyd yn dangos pa mor bwysig yw gweithio gyda'ch milfeddyg i sicrhau bod cyngor yn cael ei deilwra ar gyfer eich da byw a'ch system ffermio chi. Mae datblygu cynllun iechyd anifeiliaid mewn cydweithrediad gyda'ch milfeddyg yn rhan hanfodol o reoli unrhyw fenter da byw. Gallwch hefyd gyfeirio at y codau ymarfer lles anifeiliaid sydd ar gael yn www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid

Dewi Hughes

Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio
Gwanwyn 2020

Cyswllt Ffermio - eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen

Gall busnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau cymorth, canllawiau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r gwasanaethau wedi eu hariannu'n llawn, tra bod eraill yn cael eu hariannu hyd at 80%.

Ewch i'n gwefan i weld sut gallwch chi...

- gael budd o gefnogaeth fusnes cymhorthdaledig, sydd wedi ei deilwra at eich anghenion busnes
- meincnodi eich perfformiad a gweithio tuag at gynnydd a thwf
- datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen datblygiad proffesiynol/dysgu gydol oes
- cadw llygad ar y cynlluniau blaengar diweddaraf ym myd technoleg trwy ddatblygiadau yn y diwydiant a'r ymchwil diweddaraf
- rhannu arfer gorau a chael budd o'r wybodaeth gan ffermwyr eraill, arbenigwyr y diwydiant ac ymchwil academiaidd
- cael eich ysbrydoli gan syniadau newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon a blaengar o weithio



Rhoi strategaeth rheoli iechyd ar waith wrth gynhyrchu moch



Gweithiodd Cyswllt Ffermio gyda fferm ffocws Ffridd, uned da byw cymysg ar ucheldir Pen Llŷn. Arallgyfeiriodd y fferm i gynhyrchu moch ar raddfa fach yn 2007 a bellach mae'n rhedeg uned Moch Cymreig pedigri lwyddiannus, gan ychwanegu gwerth at y cynnyrch a werthir gan ddefnyddio'r brand Oinc Oink. Roedd y prosiect yn gyfle i rannu arfer da a chyngor i ddarpar-gynhyrchwyr moch ar raddfa fach yng Nghymru. Fel rhan o'r prosiect, cydweithiodd fferm Ffridd gyda'i milfeddyg ar faterion iechyd a lles moch i wella cynhyrchiant.

Negeseuon allweddol y prosiect

Mae bioddiogelwch yn allweddol. Dylid rhoi mesurau llym ar waith i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno i'r genfaint.

Mae cadw anifeiliaid ar wahân yn hanfodol. Mae hyn yn rhoi cyfle i fonitro a nodi unrhyw glefydau posibl cyn cyflwyno moch i'r brif genfaint.

Mae brechu yn hollbwysig. I atal clefyd neu salwch rhag effeithio ar y genfaint.

Mae gwrthfotigau yn bwysig. Ond peidiwch â defnyddio gwrthfotigau os nad oes eu hangen. Gofynnwch am gyngor milfeddyg i drin yr anifeiliaid.

Pwysigrwydd bioddiogelwch

Cynllunio bioddiogelwch

- Gorfodwch fesurau gwahanu llym.
- Newidiwch i ddillad amddiffynnol tafladwy a diheintiwr gerbydau ac esgidiau cyn mynd ar y safle.
- Dylid defnyddio diheintydd addas fel FAM30.

Gwylwch y moch yn rheolaidd

- Gwylwch y moch yn rheolaidd, ond gwnewch hynny yn dawel.
- Cadwch lygad am arwyddion o afiechyd: dolur rhydd, diffyg archwaeth, araf i godi, y croen yn llychwino, marciau neu friwiau ar y corff.

- Rhaid gweithredu'n fuan ar ôl cael diagnosis o unrhyw arwyddion o afiechyd.
- Cadwch yr anifail ar wahân a gofynnwch am gyngor milfeddyg i benderfynu ar y camau priodol.

Defnyddiwch uned wahanu

- Hanfodol ar gyfer moch sydd newydd eu prynu neu foch sy'n dychwelyd i'r uned.
- Cadwch y moch ar wahân am dair wythnos gan eu gwyllo bob dydd am unrhyw arwyddion o afiechyd cyn eu cymysgu â moch y fferm.
- Dylai staff yr uned gwarantîn ddefnyddio offer a dillad gwahanol i'r rhai a ddefnyddir wrth drin y brif genfaint.
- Dylai moch a gadwyd ar wahân gael cyfle i setlo cyn cymysgu â'r moch eraill. Bydd hyn yn aml yn golygu brechu moch yn unol â rhaglen y fferm.

Brechwch yn gywir

- Mae'n hanfodol ymgynghori â milfeddyg y fferm.
- Trafodwch a fyddai'n fuddiol brechu yn erbyn Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu Pathogenig Moch (PRRS), Parfofeirws y Moch (PARVO), Fflamwyddyn y Moch (Erysipelas) a Nychdod Amlsystemig Ôl-ddiddefnu (PMWS).
- Sicrhewch eich bod yn brechu ar yr oedran cywir.
- Storiwch y brechlynnau yn unol â'r cyfarwyddiadau wrth eu cludo a'u storio.

Symleiddiwch y system i wella lles ac iechyd moch



Mewn cydweithrediad gyda Menter Moch Cymru, aeth Cyswllt Ffermio ati i gysylltu cynhyrchwyr moch gyda Richard Hooper, arbenigwr o Harper Adams, i archwilio systemau magu moch. Esboniodd Richard ei waith ymchwil sy'n archwilio pob math o strategaethau rheoli i **wella a symleiddio dulliau o fagu moch**. Mae'n defnyddio system fridio swp bob tair wythnos gyda'i genfaint, ac mae'r holl adeiladau yn gweithredu ar sail 'pawb i mewn, pawb allan'. Roedd y prosiect yn ystyried buddion system o'r fath.

Daeth i'r casgliad bod system 'pawb i mewn, pawb allan' yn golygu bod modd glanhau a diheintio'n llwyr rhwng sypiau i wella iechyd.

Cynghorion i gynhyrchwyr moch

- Gellir gwella cyfraddau twf drwy gyflwyno genynnau newydd.
- Addaswch y maeth drwy ddefnyddio porthiant gwahanol wrth besgi baeddod a hesbinychod. Mae gan foch benywaidd a gwrywaidd anghenion gwahanol o ran lysin ac asidau amino eraill.
- Cynhaliwch dreialon bwydo ar y fferm, gan roi cynnig ar ddeietau gwahanol ar bob cam, er mwyn sefydlu trefn fwydo wedi'i theilwra.
- Dylai maeth perchyll newydd-anedig fod yn flaenoriaeth, ynghyd â'r defnydd o laeth ychwanegol ar gyfer torllwythi.

Ffrwythlondeb, beichiogrwydd a maeth hychod



Mae Cyswllt Ffermio wedi gweithio gyda chynhyrchwyr moch Cymru drwy gyfrwng grwpiau trafod, gweithdai a digwyddiadau i wella cynhyrchiant moch, gan ganolbwyntio ar ffrwythlondeb, beichiogrwydd a chyfraddau goroesi perchyll. Mae'r digwyddiadau hyn wedi helpu ffermwyr moch i fabwysiadu arfer gorau wrth reoli hychod a hesbinychod.

Prif negeseuon

Sut i sicrhau bod hychod yn beichiogi

- Mae ofwliad yn digwydd tua 36-40 awr ar ôl i'r hwch ddechrau gofyn baedd (sefyll).

Yr amser gorau i ymhadu yw 6-12 awr cyn ofwliad.

- Felly - parwch 24 awr ar ôl i'r hwch ddechrau gofyn baedd.
- Dylid ailadrodd hyn 8 - 12 awr wedyn os bydd yr hwch yn dal i dderbyn y baedd.

Cadwch moch mewn grwpiau cymdeithasol, i leihau straen a gwella cynhyrchiant



Dylid osgoi cymysgu moch yn ystod y cyfnod paru i leihau straen a bwlio



Cofnodwch ac aseswch yn erbyn targedau a osodwyd

- ✓ Nifer yr hychod beichiog. ✓ Nifer y moch a anwyd yn fyw. ✓ Nifer y moch a ddiddynwyd yn llwyddiannus.

Ffactorau sy'n effeithio ar ffrwythlondeb

Rhy denau neu'n rhy dew


- Mae gordewdra yn effeithio ar yr ofaris.
- Dylai hesbinychod bwyso 120-130kg pwysau byw pan fyddant yn paru.

Oedran

- Dylai hesbinychod fod ar eu gorau ar gyfer paru yn 28 wythnos oed.

Grwpiwch yn ôl oedran/maint

- Bydd hyn yn lleihau ymladd a gofid.
- Addaswch y dognau porthiant i'r grwpiau o hesbinychod.



Baedd/dull paru a ddefnyddiwyd

- A yw perfformiad y baedd wedi'i brofi?
- A yw'r Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBVs) ar gael?
- Sicrhewch fod y gymhareb yn gywir i osgoi straen: mae angen 1 baedd i bob 18 hesbinwch wrth baru'n naturiol.
- Dylai'r hesbinychod a ddewisir gael eu cyflwyno i faedd aeddfed am 20 munud bob dydd (o dan oruchwyliaeth) i ysgogi cylchred gynharach.

Amgylchedd

- Tymheredd amgylchol - 15-20°C ar gyfer hesbinychod.
- Dylid cynllunio'r adeiladau i atal straen oherwydd gwres.
- Dylai'r adeilad gael ei inswleiddio'n ddigonol a chynnwys y nodweddion canlynol:
 - Awyru da.
 - Golau digonol.
 - Lefelau dŵr a systemau bwydo digonol ar gyfer nifer y moch yn yr adeilad.
 - Systemau rheoli stoliau unigol.

Amseru

- Mae ofwliad yn digwydd rhwng 38 a 42 awr ar ôl oestrws ac mae'n cymryd tua 4 awr.
- Yr amser gorau i baru yw cyn ofwliad.
- Dylid paru hesbinychod pan sylwir bod yr hwch yn gofyn baedd (sefyll), ac yna 24 awr yn ddiweddarach.



Mae gwell maeth ymhlith hychod yn gwella'r gyfradd o berchyll sy'n goroesi

Mae perchyll newydd-anedig yn fwy tebygol o farw pan fyddant yn cystadlu am golostrwm. Pan fydd perchyll yn cael eu geni, mae ganddynt rywfaint o egni wedi'i storio ond bydd angen rhagor arnynt yn fuan i oroesi, yn enwedig yn ystod y tridiau cyntaf. Mae rhoi sylw i faeth yr hwch yn ystod y cyfnod cyfebru yn gwella canlyniadau o ran **cynnyrch, ansawdd a chyfansoddiad** colostrwm.

- Mae **ffibr** (h.y. pwlp betys siwgr) a ffynonellau braster yn cynyddu faint o golostrwm a gynhyrchir ac yn gwella ei gyfansoddiad; mae hefyd yn cynyddu faint o golostrwm mae'r perchyll yn ei dderbyn.
- Mae gwell cyfraddau twf dyddiol perchyll yn amlwg pan fydd deiet hwch yn ystod y cyfnod cyfebru yn cynnwys y **math cywir o brotein** h.y. protein sy'n cynnwys y teulu arginin o asidau amino. Mae pwysau geni'r perchyll yn fwy ac maent yn sugno'n well hefyd.
- Addaswch y deiet ar gyfer anghenion gwahanol yr hwch – darparwch ddeiet gwahanol yn ystod y cyfnod cyfebru o'i gymharu â'r deiet yn ystod y cyfnod llaetha.
- Gellir gwella cyfraddau twf yn dilyn genedigaeth drwy ychwanegu at y maeth mae'r porchell yn ei dderbyn gan yr hwch drwy ddiol borthi moch bach yn ystod y cyfnod pontio rhwng genedigaeth a diddyfnu. Mae hyn hefyd o fudd i'r hwch oherwydd bydd y perchyll yn llai dibynnol arni, a bydd hyn yn helpu ei hadferiad corfforol.

Gwerthuso perfformiad y mochyn pedigri Cymreig



Wrth i ddiwydiant moch y Deyrnas Unedig ymateb i'r galw am gynhyrchu carcasau braster wedi'u teneuo a symud tuag at gynhyrchu mwy dwys, mae angen i'r brîd pedigri Cymreig gystadlu â chynhyrchedd moch hybrid mwy poblogaidd. Bu prosiect a gefnogwyd gan Cyswllt Ffermio yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Glynllifon yn gwerthuso perfformiad a chynhyrchedd y Mochyn pedigri Cymreig pur ochr yn ochr â mochyn hybrid x pedigri Cymreig yn erbyn targedau Dangosyddion Perfformiad Allweddol penodol. Cafodd canlyniadau'r prosiect eu rhannu gyda'r diwydiant ehangach drwy rwydwaith Cyswllt Ffermio.

Nodau'r prosiect

Gwerthuso amrywiadau mewn perfformiad a chynhyrchedd y moch pedigri Cymreig a moch hybrid.

Defnyddio'r data hwn i wneud penderfyniadau rheoli y gellir eu cyfiawnhau, fel dewis y bridiau mwyaf cynhyrchiol.

Beth gafodd ei gofnodi?

Cofnodwyd amryw o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y ddau frîd

- Maint y dorllwyth
- Pwysau ar gyfnodau rheolaidd o'u geni i'w lladd
- Pwysau lladd
- Dyddiau cyn lladd
- Problemau iechyd/ffrwythlondeb/bridio

Targedau'r prosiect

- ✓ **Targed 1**
12.9 o berchyll yn cael eu geni'n fyw i bob torllwyth
- ✓ **Targed 2**
109.8kg pwysau carcass/mochyn
- ✓ **Targed 3**
90 diwrnod cyn lladd
- ✓ **Targed 4**
7.4kg pwysau diddyfnu /porchell


Canlyniadau'r prosiect

Mae pwysau geni'r moch pedigri Cymreig yn uwch – mae'n debyg oherwydd bod y torllwythi yn llai




Mae pwysau diddyfnu yn uwch mewn torllwythi perchyll hybrid






Dyddiau cyfartalog cyn lladd

Roedd y moch pedigri Cymreig yn cael eu lladd yn gynt na'r moch hybrid a'r moch hybrid x pedigri Cymreig. Roedd y ffaith bod moch pedigri Cymreig yn cael eu lladd yn gynt er mwyn lleihau'r risg o gael gormod o fraster ar y carcass yn cyfrannu at hyn.



Pwysau cyfartalog adeg eu lladd

Moch hybrid oedd â'r pwysau cyfartalog mwyaf adeg eu lladd, sef 85.9kg. Roedd y ffaith bod y moch pedigri Cymreig yn cael eu lladd yn gynt er mwyn lleihau'r risg o gael gormod o fraster ar y carcass yn cyfrannu at hyn.



Maint cyfartalog y torllwythi

Er bod maint torllwythi'r moch Cymreig wedi cynyddu o 1 porchell mewn 6 mis, roeddynt yn dal i fod yn llai na rhai'r moch hybrid a'r moch hybrid x pedigri Cymreig.

Gwella goroesiad perchyll



Mae llawer o ffactorau yn effeithio ar oroesiad perchyll, yn enwedig yn ystod y tridiau cyntaf ar ôl eu geni. Bydd lleihau cyfraddau marwolaethau cyn-diddefnu yn gwella cynhyrchedd y genfaint yn sylweddol. Gall dulliau cynhyrchu effeithlon helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd hefyd, gan leihau ôl troed carbon y genfaint. Mae Pant y Beiliau, fferm gymysg ger y Fenni, yn magu moch cyfrwyog. Cynhaliwyd digwyddiad a gefnogwyd gan Cyswllt Ffermio ar y fferm i ystyried ffyrdd o wella goroesiad perchyll, a rhannu negeseuon am arferion da ymhlith ffermwyr moch eraill yr ardal.

- Gall perfformiad gwael yr hwch yn ystod y cyfnod cyfebru arwain at dorllwythi llai, ysgafnach.
- Newyn a gwasgu yw prif achosion marwolaeth ymhlith perchyll.
- Pwyswch y porthiant i wybod yn union faint sy'n cael ei roi, mae'n ddefnyddiol rhoi dogn i'r hwch feichiog yn hytrach na chymysgedd cyffredinol i ateb gofynion yr hwch.
- Cofiwch fod marw-enedigaethau yn gyffredin pan fydd yn geni perchyll yn araf. Bydd y llinyn bogail yn ymestyn a rhwygo pan fydd y porchell y tu mewn i'r hwch.
- Gellir gwella pwysau geni drwy ddefnyddio gwrthoedd bridio tybiedig (EBVs) a chael cynllun bridio.
- Adnabod arwyddion o afiechyd cyn gynted â phosibl.

Arfer gorau wrth eni perchyll

- Dewch â'r hwch i mewn i'r gorlan lân bedwar diwrnod cyn iddi eni perchyll er mwyn lleihau straen.
- Defnyddiwch lamp gwres, gan ei droi ymlaen y diwrnod cyn geni perchyll.
- Cadwch lygad ar yr hwch.
- Rhwbiwch fol yr hwch i ysgogi cyfangiadau rheoledig o'r groth.
- Ceisiwch beidio ag ymyrryd - mae'n bosibl bydd bwch o 30 munud rhwng geni pob porchell.



Arfer gorau ar ôl geni perchyll

- Sychwch y perchyll â llaw i'w hatgynerthu.
- Symudwch nhw i ffwrdd o'r hwch i osgoi eu gwasgu.
- Helpwch nhw i sugno os oes angen.
- Sicrhewch fod y perchyll yn derbyn 200g o golostrwm yn y 24 awr cyntaf.

Rheoli'r hwch a'r hesbinwch

Sicrhewch **sgôr cyflwr corff o 3-3.5** yn ystod beichiogrwydd.

Ystyriwch oedran a brîd y mochyn wrth sgorio ei gyflwr.

A yw'r perchyll yn cael digon o fitamin E?

Gall diffyg Fitamin E arwain at borchell sy'n edrych yn iach ond sydd â chalon wedi gordyfu (Mulberry Heart).

Darparwch borthwch er mwyn sicrhau bod y perchyll yn bwyta digon ac yn cael digon o fitamin E.

Mae angen i hychod fod **'Yn Iach nid yn Dew'** pan fyddant yn geni perchyll



Gall perfformiad gwael yr hychod yn ystod y cyfnod cyfebru arwain at dorllwythi llai ac ysgafnach



Mae **80%** o farwolaethau perchyll yn digwydd yn y **3** diwrnod cyntaf ar ôl eu geni



Mae marw-enedigaethau yn cynyddu ymhlith **y traean olaf o berchyll a enir**



Llai o farwolaethau cyn-diddyfnu = gwell cynhyrchiant, perfformiad ac elw



Helpwch i gael gwared ar Glwy Affricanaidd y Moch



Beth yw Clwy Affricanaidd y Moch?

Mae Clwy Affricanaidd y Moch yn glefyd hysbysadwy. Mae'n gyflwr heintus difrifol sy'n effeithio ar foch domestig a gwyllt. Mae'n gyfrifol am golledion economiadd a chynhyrchiant difrifol. Gall moch byw neu farw, moch domestig neu wyllt, a chynhyrchion moch, ei ledaenu. Gall porthiant, offer, cerbydau neu weithwyr sydd wedi'u halogi, drosglwyddo'r clefyd hefyd.

Nid oes brechlyn cymeradwyedig yn erbyn Clwy Affricanaidd y Moch. Yn hanesyddol, cafwyd adroddiadau am achosion yn Affrica a rhannau o Ewrop, De America a'r Caribî. Yn fwy diweddar (ers 2007) cafwyd adroddiadau am achosion ar draws Affrica, Asia ac Ewrop, mewn moch domestig a gwyllt.

Arwyddion clinigol

Ffurfiâu llym

- ✓ Gwres uchel
- ✓ Iselder
- ✓ Diffyg archwaeth
- ✓ Gwaedlif ar y croen
- ✓ Hychod beichiog yn erthylu
- ✓ Croen glas/porffor neu goch amlwg
- ✓ Chwydu
- ✓ Dolur rhydd
- ✓ **Marwolaeth cyn pen 6-13 diwrnod**

Ffurfiâu cymedrol ddifrifol/cronig

- ✓ Colli pwysau
- ✓ Twymyn ysbeidiol
- ✓ Symptomau anadlu
- ✓ Briwiau cronig ar y croen
- ✓ Arthritis
- ✓ **Marwolaeth mewn 30-70% o achosion**

Nid yw Clwy Affricanaidd y Moch yn beryglus i bobl



Marwolaeth hyd at **100%** mewn mathau difrifol o Glwy Affricanaidd y Moch



Rhaid cadarnhau diagnosis drwy **brofion labordy**



Trosglwyddiad a lledaeniad

Mae'r clefyd yn **heintus iawn**. Gall gael ei ledaenu drwy:

- Gyswllt uniongyrchol gyda moch domestig wedi'u heintio, moch gwyllt, eu hysgarthion neu hylifau corff.
- Cyswllt anuniongyrchol, drwy fwyta deunydd wedi'i halogi (gwastraff bwyd, porthiant neu sbwriel).
- Cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol gydag unrhyw fectorau, fel trogod, cerbydau, dillad, cyllyll, esgidiau ac offer.

Dulliau atal

- Cofiwch mae'n anghyfreithlon rhoi gwastraff cegin ac arlwyo i foch.
- Polisiâu mewnforio priodol.
- Mesurau bioddiogelwch llym.
- Sicrhau nad yw moch heintus yn cael eu cyflwyno i ardaloedd sy'n rhydd rhag y clwy.
- Gwaredu gwastraff yn briodol.
- Plismona mewnfurion moch anghyfreithlon.
- Peidio â rhoi porthiant i foch a allai fod wedi'i heintio gan gynnyrch cig.



Rheoli

- Canfod yn gynnar.
- Difa anifeiliaid yn drugarog.
- Glanhau a diheintio.
- Creu parthau a rheoli symudiadau.
- Gwyliadwraeth ac ymchwiliad epidemiolegol.
- Gwybodaeth a rheolaeth o'r boblogaeth baeddod gwyllt.
- Cydweithio da rhwng gwasanaethau milfeddygol a'r awdurdodau.

Os caiff achos ei gadarnhau, bydd Clwy Affricanaidd y Moch yn cael ei reoli yn unol â'r cynllun wrth gefn ar gyfer clefydau hysbysadwy ecsotig a strategaeth reoli Clwy Affricanaidd y Moch ar gyfer Prydain Fawr.

Os ydych yn amau achos o Glwy Affricanaidd y Moch, rhaid i chi roi gwybod am hyn ar unwaith drwy ffonio **Llinell gymorth Gwasanaethau Gwledig DEFRA ar 03000 200 301**

Cyswllt Ffermio



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



08456 000 813



farmingconnect@menterabusnes.co.uk



[Facebook.com/FarmingConnect](https://www.facebook.com/FarmingConnect)



[@FarmingConnect](https://twitter.com/FarmingConnect)